**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangywer**

**23 Mai 2022**

**Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd ) Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i dymor newydd Cyngor Cymuned Llangywer. Nid oedd ymddiheuriadau.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 23/3/22.
5. Materion y Clerc:

    i. Cofrestru tir y fynwent: cynhelir cyfarfod gyda'r Cyfreithwyr ddiwedd yr wythnos. Diolchwyd i Gwmni Tom Parry am wneud asesiad ffurfiol o werth y fynwent, sef £0.00.
    ii. Yn dilyn ymgynghoriad e-bost, prynwyd a thalwyd am badiau newydd i'r 2 Di-ffib am gost o £60 x2. Cytunwyd i ofyn i'r Gronfa sydd gan Bwyllgor y Neuadd am gyfraniad pan fydd ganddynt arian mewn llaw.
    iii. Bydd Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn trefnu digwyddiad natur a'i ffilmio yn y fynwent (8 neu 9 Mehefin). Oedwyd torri'r gwair oherwydd hyn.
    iv. Adroddwyd o gyfarfod Zoom a drefnwyd gan EE a Mabon ap Gwynfor gydag aelodau Cyngor Cymuned Llanuwchllyn ar fastiau telegyfathrebu. Derbyniwyd sicrwydd a dogfennau gan Lywodraeth y DU nad oes perygl i iechyd dynol yn 5G. Derbyniodd y Clerc ac aelodau Gwalia becyn o wybodaeth am fastiau 5G ond nid oedd cyfeiriad arno i fedru cydnabod ei dderbyn.

6. Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd. Soniodd
7. Materion lleol y Cynghorwyr
8. Cynllunio: Ystyried cais

    **NP5/70/83D sef** Adeiladu caban ffram pren i'w ddefnyddio fel llety gwyliau i berson anabl yn Ffynnon Gywer, LL23 7DA

    **NP5/70/83E** sef Adeiladu sied amaethyddol yn Ffynnon Gywer, LL23 7DA yn Ffynnon Gower, Llangywer. LL23 7DA

9. Derbyn gwybodaeth am y sefyllfa ariannol, yn cynnwys derbyn hanner y praesept (£2125).

10. Ystyried Yswiriant y Cyngor ac anfoneb Zurich

11. Ystyried y Ffurflen Blynyddol i'w hanfon at yr Archwilydd Mewnol

*12.* Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf: 13/6/22 (*neu pan ddychwelir y ffurflen; dros Zoom yn bosib)*

Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
01678540654 07896964120
lis_puw@hotmail.co.uk